Siambr Fasnach a Thwristiaeth
Bro Ffestiniog
Chamber of Commerce & Tourism
Cofnodion / Minutes for 29/10/12

Presennol: Andrew Roberts - Llechwedd, Roger Clear - Taurus Designs, Bob Cole - Cyngor Tref Ffestiniog / Blaenau Ymlaen, Ann Cole - Blaenau Ymlaen, Mandy Williams-Davies - Cyngor Tref Ffestiniog / Cyngor Gwynedd, Meirion Ellis - Cambrian News, Debbie & Malcolm Jones - Debbie's Cake'ole, Alister Haveron - Dolawel, John & Ceilia Whitehead - Bryn Elltyd, Clare Britton - Rheilffordd Ffestiniog , Andrew Lewis - Gwesty Tŷ Gorsaf, Gaile Weir - Caffi'r Bont, Richard Thomas - Snowdonia Slate, Huw Jenkins - Campbell's Cottage, Nia Roberts - Siop y Gloddfa, Anna & Zoe Pritchard - Parti 4, Dylan Jones - Heddlu Gogledd Gymru, Paul Thomas - Cyngor Gwynedd, Alwyn & Rhiannon Jones - Brethyn Blaenau.

1. **Ymddiheuriadau** - Kevin Baldwin - DeNeros, Chris & Iris Fosbury- Efion Stores, Gill Vescio - Isallt, Owain Williams - NatWest, Amy Jones - J T Thomas & Co Cyfrifwyr, Rhys Roberts - cellb, Carwyn Jones - Y Siop Werdd.
   Andrew welcomed everyone.
2. **Cofnodion y Cyfarfod diwethaf a materion yn codi**: Derbyniwyd y cofnodion . Materion yn codi heb fod ar y Rhaglen.
3. **Heddlu** - 'Roedd Dylan Jones yn awyddus i ni wybod bod yr Heddlu yn awyddus i i'r gwaith adnewyddu fod yn llwyddiannus, dywedodd wrthym hefyd nad oedd y sustem 'hub' yn gweithio a byddent yn dychwelyd i'r hen sustem erbyn Ion 2013 a bydd nifer llawn o staff ym Mlaenau. Gofynnodd Roger os oedd staff yn yr orsaf' Atebwyd y bod. Rhoddodd Paul wahoddiad iddo i gyfarfod y Cyngor Tref nesaf. Dywedodd Dylan wrthym am y gwaith oedd yn mynd ymlaen ar hyn o bryd yn Manod gyda phobl fregus a rhai ifanc sydd yn eu tormentio. Y canlyniad yw bod pethau'n gwella oherwydd bod yr Heddlu yn cydlynu gyda'r preswylwyr a'r bobl ifanc. Soniodd Andrew Lewis, Gwesty Tŷ Gorsaf, bod ymddygiad gwrthgymdeithasol tu allan i'r gwesty yn ystod oriau man y bore. Pwysleisiodd Dylan y pwysigrwydd o alw'r Heddlu am ddigwyddiadau, galw 101 ac mewn argyfwng 999.
4. **Adroddiad Aelodaeth** - Bydd Zoe yn cysylltu â Delwedd gan fod problemau o hyd gydag arwyddo ymlaen ar lein a paypal. Gan fod gan bob aelod copïau o Adroddiad argymhellion yr is-bwyllgor o'r Wefan, cafwyd pleidlais arno ac fe gytunwyd ar £20 fel ffioedd ymaelodi ar lein a £10 i adnewyddu. Bydd aelodau yn cael cynnig Band Aur am £30 fydd yn cynnwys mwy o luniau a fideo., a bydd hyn ar gael i atyniadau rai nad ydynt yn aelodau Cytunwyd hefyd, mai LL41, Dolweddelan a Bronaber fyddai ffiniau aelodau, a buasa'r costau i'w edrych ar yn flynyddol. Cododd Paul sylw bod llawer o aelodau newydd, a dywedodd Andrew fod nifer fach o aelodau yn cynrychioli commented that there are lots of new members, Andrew noted that few members are in cynhyrchu. Dywedodd Zoe ei body n targedu pobl yn enwedig nawr bod gwefan ar gael.
5. **Adroddiad y Trysorydd** - Ysgriffennod Gill at Andrew ei bod yn ymddiswyddo oherwydd iechyd. Cytunwyd fod Ann yn ysgrifennu ati yn diolch am yr holl flynyddoedd o wasanaeth fel Trysorydd a dymuno adferiad iechyd iddi. Roedd gan Roger yr holl ddogfennau yn dangos bod £225 yn y banc, a chytunodd i fod yn drysorydd dan ofal, Soniwyd hefyd bod Iris Fosbury yn llofnodydd a buasai Roger yn gadael iddi wybod hyn.

6. **Gwefan -** Dywedodd lister bod busnesau'r aelodau newydd ar y wefan . Nia, Zoe ag Alister dal i aros am hyfforddiant gan Delwedd, bod problemau ar y calendar. Cododd Zoe y mater o gael mwy o wirfoddolwyr gyda'r gweinyddu i gymryd mantais o'r dudalen 'facebook'. Cytunwyd fod y wefan yn ardderchog a chododd Alwyn problemau server. Gofynnodd Huw I gael ystadegau ar gyfer pob cyfarfod.
7. **Blaenau Ymlaen -** Adfywio - Dywedodd Bob wrthym fydd y gwaith yn darfod diwedd Tachwedd a bydd nifer o gyfleoedd i'r cyfryngau gyda Gweinidogion yn ymweld, Ar 11eg Dach Alun Davies AM Is- Weinidog Rhagleni yn dadorchuddio plac, ar 11eg o Rag Carwyn Jones AS Uwch Weinidog I agor y prosiect yn swyddogol. Jane Hutt AS Gweinidog Cyllid wedi ymweld yn barod. Dywedodd hefyd bod llawer o arwyddion gwybodaeth o amgylch y dref. Bu Mandy yn ymwneud a myfyrwyr ifanc o Goleg Meiorion-Dwyfor yn dylunio themâu modern iawn i'r toiledau, gan ei fod yn adeilad wedi ei gofrestru roeddent wedi canolbwyntio tu mewn i'r adeilad ac mae yn anelu i fod yn barod erbyn Gwanwyn 13. Nodwyd nad oedd y toiledau ar agor ddigon hir ar hyn o bryd. Hefyd bod erthygl wedi arddangos yn y cylchgrawn 'Coaching' yn son am y cynllun i ddenu pobl i ymweld â'r Blaenau. Soniodd Bob am y ffaith bod Blaenau yn dref gyd phoblogaeth yn siarad y Gymraeg a dyllem yn gwneud mwy i ddenu gweddill Cymru, ein bandiau barddoniaeth yn atyniad.
8. **Pamffled Newydd -** Gyda Pryderi yn absennol, dywedodd Bob beth oedd ei angen, ac 'roedd yn bwysig bod y gwaith yn dechrau cyn gynted a phosib ar y pamffled newydd. Eglurodd pam ei bod yn bwysig i aelodau'r Siambr yn y broses yma ac I Pryderi gael grŵp o wirfoddolwyr sy'n fodlon gweithio gydag o sydd wedi ymrwymo i gynhyrchu'r pamffled. Y rhai a wirfoddolodd oedd Roger, Huw, Alwyn, Clare, Paul, Mandy + cynllunwyr + Pryderi.
9. **Parti 'Dolig -** Cytunwyd I gael yr achlysur yng Ngwesty Tŷ Gorsaf am 7pm dydd Llun 3ydd o Ragfyr, bydd bwffe ar gost o £7.50 y person, aelodau i dalu yn uniongyrchol I Tŷ Gorsaf. Gofynnodd Roger os gallai fod yn achlysur preifat. Cytunodd Ann I anfon e-bost i'r holl aelodau i'w gwahodd i'r achlysur ac yn gofyn am iddynt dalu £7.50 yr un yn uniongyrchol i Tŷ Gorsaf.
10. **Twristiaeth -** Dywedodd Alister wrthym fod busnes wedi body n dda yn Nolawel, bod beicwyr wedi aros yno. Dywedodd Clare nad oedd Rheilffordd Ffestiniog wedi cael cystal blwyddyn ac roeddent yn rhoi'r rheswm am hyn i'r tywydd a'r mabolgampau Olympaidd. Anogwyd yr aelodau i fynychu cyfarfod Blaenau Ymlaen yn yr Hen Co-op 6pm 13^{eg} Tach. Dywedodd Paul fod Neuadd y Farchnad wedi ei phrynu gan y teulu Sleiven sy'n byw yn yr Hen Grochendy, mae ganddynt amryw o gynlluniau i'r adeilad ac roedd am eu gwahodd i gyfarfod nesaf Blaenau Ymlaen, dywedodd Andrew dyllant gael gwadd i'r digwyddiad Nadolig. Dywedodd Andrew Lewis Tŷ Gorsaf bod gwesteion yn llenwi holiaduron am eu harhosiad a bod rhai positif ond rhai yn son am ymddygiad gwrthgymdeithasol, 'roedd am gael sicrwydd bydd CCC I fyny ac yn rhedeg yn fuan. Cafodd sicrwydd y buasent i fyny ac yn rhedeg erbyn Rhagfyr fan hwyraf.
11. **UFA -** * Cododd Alister / Huw llwybr Dyffryn Ffestiniog a'r mater heb ei ddatrys ar dir Llechwedd yn cysylltu llwybrau troed 104 gyda 103 a 119. Yn dilyn achlysur diweddar yn chwarel Maenofferen, dywedodd Andrew fod y cwmni yn ail edrych ar farcio ffordd ac arwyddion yn gyffredinol yn ôl arweiniad gan GID. Cytunodd Andrew I gyfarfod ag Alister a Huw I drafod y mater eto. Dywedodd Paul fod y llwybrau oll o dan gyfrifoldeb y Cyngor Tref. *Grybwyllodd Richard ddenu pobl o Landudno, gefynnodd i aelodau ddod a syniadau i'r cyfarfod nesaf. *Dywedodd Paul wrthym fod parcio di-dâl dros gyfnod y Nadolig I'w drafod yng Nghabinet Cyngor

Gwynedd, a fysai yn e-bostio pawb os oedd i'w ganiatáu. *Crybwyllodd Nia am y 'siopwr cudd' a gofynnodd a oedd dal ymlaen, cadarnhaodd Bob & Paul hi ei fod . *Cododd Debbie'r mater o ddiffyg biniau yn y Manod unwaith eto, ac fe'i sicrhawyd gan Bob ei fod wedi ei godi a fasa yn ei ddilyn ymlaen. *Aelod newydd, Philip Mawson, yn dweud am ailgylchu carbod glan sych, Snowdonia Recycling Ltd ar ddydd Mawrth am gost o £120 y flwyddyn yn ddaliadwy yn fisol - cyswllt - David Williams enquiry@snowdoniarecycling.co.uk ffon 07909827709

12. **Dyddiad y cyfarfod nesaf dydd** **Llun 7fed Ionawr 2013 @ 7pm lleoliad i'w drefnu**